# LLYWODRAETH CYMRU

# DEDDF HARBYRAU 1964 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

# GORCHYMYN ARFAETHEDIG ADOLYGU HARBWR (ESTYN TERFYNAU) HARBWR PORT TALBOT 202[X]

# DATGANIAD I GEFNOGI CAIS AM ORCHYMYN GAN:

# CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN

1. CYFLWYNIAD ..... 3

2. CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN A HARBWR PORT TALBOT ..... 5

3. Y COD DIOGELWCH MOROL PORTHLADDOEDD, CANLLAW ARFER DA O RAN GWEITHREDIADAU PORTHLADDOEDD A CHYNLLUNIAU MOROL ..... 7

4. DEDDF HARBYRAU 1964 ..... 10

5. ANGEN A CHYFIAWNHAD AM GAH ..... 12

6. YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU CYN YMGEISIO ..... 16

7. CASGLIAD ..... 22

**ATODIADAU**

ATODIAD A: DEUNYDD YMGYNGHORI CYHOEDDUS

ATODIAD B: RHESTR O'R ADBORTH YMGYNGHORI AC YMATEB YR YMGEISYDD

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chais Cymdeithas Porthladdoedd Prydain ("CPP") am Orchymyn arfaethedig Adolygu Harbwr (Estyn Terfynau) Harbwr Port Talbot 202[X] ("GAH"). CPP yw'r awdurdod harbwr statudol (AHS) ar gyfer Harbwr Port Talbot.

1.2 Ynghyd â'r cais, a wnaed mewn llythyr i Weinidogion Cymru dyddiedig 20 Gorffennaf 2023, mae'r dogfennau canlynol:

(a) 1 copi o'r GAH drafft;

(b) 6 chopi o'r cynllun y cyfeirir ato yn y GAH

(c) 1 copi o'r datganiad hwn;

(d) cyfieithiad Cymraeg o'r GAH drafft a'r Datganiad hwn; a

(e) copïau o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Rheilffyrdd a Dociau Port Talbot 1894;
- Deddf Rheilffyrdd a Dociau Port Talbot 1914;
- Deddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1964;
- Deddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1971;
- Deddf Cymdeithas Porthladdoedd Prydain 1990; a
- Gorchymyn Cyfarwyddiadau Harbwr (Dynodi Awdurdodau Harbwr)(Rhif 2) 2015.

1.3 Mae'r cais am orchymyn adolygu harbwr i'w wneud o dan y pwerau a roddwyd gan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964 ("DH 1964") sydd yng Nghymru wedi'u trosglwyddo i weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017.

1.4 Gwneir y cyflwyniad hwn yn dilyn hysbysiad o fwriad i gyflwyno Cais i Weinidogion Cymru a gyhoeddwyd ar 13 Gorffennaf 2023.

1.5 Mae'r GAH yn darparu ar gyfer ymestyn terfynau Harbwr Port Talbot i mewn i Fae Abertawe i gynnwys y tir a ddangosir ar Gynllun 1 oddi fewn i awdurdodaeth CPP fel awdurdod harbwr statudol. Mae'n darparu ar gyfer ymestyn cyfrifoldebau statudol CPP dros y terfynau newydd arfaethedig. Mae angen yr estyniad i ddelio'n benodol â phryderon ynghylch diogelwch mordwyo yng nghyswllt materion penodol yn ymwneud ag angori a pheilotiaeth, ac yn fwy cyffredinol i gefnogi rheolaeth effeithiol ar Harbwr Port

Talbot mewn modd effeithlon ac economaidd at ddibenion adran 14(2)(b) o DH 1964 ac fel yr argymhellir yng Nghod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

**Strwythur y Datganiad hwn**

1.6 Dyma strwythur gweddill yr Adroddiad:

- Mae Adran 2 yn nodi cyd-destun deddfwriaethol Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, fel yr awdurdod harbwr statudol, a bodolaeth Port Talbot.
- Mae Adran 3 yn crynhoi'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd sy'n ofyniad ar CPP ac sy'n berthnasol i'r estyniad arfaethedig i derfynau'r harbwr.
- Mae Adran 4 yn crynhoi DH 1964 a'r adrannau sy'n berthnasol i'r Gorchymyn Adolygu Harbwr hwn.
- Mae Adran 5 yn nodi'r angen a'r cyfiawnhad am y GAH, sy'n cael ei yrru'n bennaf gan ofynion diogelwch mordwyo.
- Mae Adran 6 yn egluro'r ymgynghori a'r ymgysylltu cyn ymgeisio a wnaed cyn cyflwyno'r cais hwn. Ategir yr adran hon gan Atodiad A ac Atodiad B sy'n cynnwys copi o'r deunydd ymgynghori cyhoeddus, ynghyd â'r adborth a gafwyd ac ymateb yr Ymgeisydd.
- Mae Adran 7 yn crynhoi'r angen am y GAH.

## 2. CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN A HARBWR PORT TALBOT

2.1 CPP yw'r awdurdod harbwr statudol ar gyfer Harbwr Port Talbot, yn ogystal ag ar gyfer nifer o borthladdoedd eraill o amgylch y Deyrnas Unedig. Mae'r cyfrifoldebau harbwr a etifeddwyd gan CPP oddi wrth Fwrdd Dociau Trafnidiaeth Prydain (gweler para 2.10) yn cynnwys y pwerau a'r dyletswyddau a ddynodwyd gan ddeddfwriaeth leol mewn cysylltiad â Harbwr Port Talbot, fel sydd wedi'i nodi isod.

2.2 Sefydlwyd Cwmni Harbwr Aberafan trwy Ddeddf yn 1834 er mwyn gwella Porthladd a Harbwr Aberafan yn Sir Forgannwg a thrwy hynny awdurdodi adeiladu pierau, morgloddiau a gwaith arall a fyddai'n gwella cyfleusterau'r harbwr a ffurfiwyd gan aber Afon Afan.

2.3 Roedd Deddf Harbwr a Phorthladd Aberafan 1836 yn darparu ar gyfer newid enw Cwmni Harbwr Aberafan i Gwmni Port Talbot ac yn awdurdodi adeiladu'r Hen Ddoc a newidiadau i fynedfa'r porthladd. Cafodd pwerau'r cwmni eu hymestyn maes o law gan Ddeddf Cwmni Port Talbot 1840.

2.4 Wedi hynny, trodd Cwmni Port Talbot yn Gwmni Rheilffordd a Dociau Port Talbot yn sgil Deddf Cwmni Rheilffordd a Dociau Port Talbot 1894, a oedd yn awdurdodi gwaith adeiladu newydd sylweddol yn cynnwys dau bier, doc newydd a loc mynediad.

2.5 Cafodd terfynau'r harbwr eu hymestyn a'u diffinio gan Ddeddf Rheilffordd a Dociau Port Talbot 1899. Rhoddodd Deddf Rheilffordd a Dociau Port Talbot 1914 ganiatâd i ymestyn y pierau ym Mhort Talbot ymhellach ac adeiladu loc mynedfa newydd.

2.6 Cafodd Cwmni Rheilffordd a Dociau Port Talbot ei lyncu yn rhan o'r Western Group o dan y Great Western Railway yn unol â Deddf Rheilffyrdd 1921, a rhoddwyd y porthladd ym mherchnogaeth Comisiwn Trafnidiaeth Prydain yn unol â Deddf Trafnidiaeth Prydain 1947.

2.7 Rhoddodd Deddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1964 ganiatâd i adeiladu dau forglawdd newydd er mwyn ffurfio'r harbwr llanw mawr. Cafodd terfynau'r harbwr eu hymestyn gan adran 19 o Ddeddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1971 i gynnwys sianel ddynesu.

2.8 Trosglwyddwyd y porthladd i Fwrdd Dociau Prydain pan gafodd ymgymeriadau trafnidiaeth gwladoledig eu had-drefnu o dan Ddeddf Trafnidiaeth 1962 ac mae wedi'i restru fel un o harbyrau'r Bwrdd Dociau yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno. Yn

rhinwedd adran 5(1) Deddf Trafnidiaeth 1981, ailgyfansoddwyd Bwrdd Dociau Trafnidiaeth Prydain yn Gymdeithas Porthladdoedd Prydain.

2.9 Roedd adran 16 o Ddeddf Cymdeithas Porthladdoedd Prydain 1990 yn awdurdodi ymestyn terfynau'r harbwr, ond dim ond mewn perthynas â phwerau'r harbwr feistr ac nid at unrhyw ddibenion eraill, hynny yw, nid oedd yn ymestyn awdurdodaeth lawn awdurdod yr harbwr dros y terfynau newydd. Roedd y Ddeddf hefyd yn awdurdodi sianel ddynesu estynedig lle cymerwyd pwerau i garthu.

2.10 Roedd Gorchymyn Cyfarwyddiadau Harbwr (Dynodi Awdurdodau Harbwr) (Rhif 2) 2015 yn dynodi awdurdod harbwr Harbwr Port Talbot yn awdurdod harbwr dynodedig at ddibenion cyfarwyddiadau harbwr, ym mharagraff 12 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw mewn perthynas â therfynau'r harbwr fel y'u diffinnir yn Neddf Rheilffordd a Dociau Port Talbot 1899 ac wedi'u hymestyn gan Ddeddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1971.

## 3. Y COD DIOGELWCH MOROL PORTHLADDOEDD, CANLLAW ARFER DA O RAN GWEITHREDIADAU PORTHLADDOEDD A CHYNLLUNIAU MOROL

3.1 Fel yr awdurdod harbwr sy'n gyfrifol am Harbwr Port Talbot, mae'r *Port Marine Safety Code* ("Cod"), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016 gan yr Adran Drafnidiaeth a'i gefnogi gan y gweinyddiaethau datganoledig, yn berthnasol i CPP yn ogystal â phob awdurdod harbwr statudol a chyfleusterau morol, angori a therfynfeydd eraill yn y DU.

3.2 Mae Crynodeb Gweithredol y Cod yn esbonio fel a ganlyn:

*"The Code has been developed to improve safety in the port marine environment and to enable organisations to manage their marine operations to nationally agreed standards. It provides a measure by which organisations can be accountable for discharging their statutory powers and duties to run harbours or facilities safely and effectively. It also provides a standard against which the policies, procedures and performance of organisations can be measured. The Code describes the role of board members, officers and key personnel in relation to safety of navigation and summarises the main statutory duties and powers of harbour authorities. The Code is designed to reduce the risk of incidents occurring within the port marine environment and to clarify the responsibilities of organisations within its scope."*

3.3 Mae'r Cod, yn ogystal â'r ddogfen gefnogi *A Guide to Good Practice on Port Marine Operations*, Chwefror 2018 ("Canllaw"), yn nodi nifer o dasgau y dylai awdurdodau harbwr eu cyflawni er mwyn cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys adolygu a bod yn ymwybodol o bwerau cyfredol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth leol a chenedlaethol, ac yn cynghori awdurdodau harbwr i geisio pwerau ychwanegol pe na bai'r pwerau cyfredol yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu mordwyo diogel ac, wrth wneud hynny, i ystyried y mecanweithiau amrywiol megis gorchmynion harbwr sydd ar gael i ddiwygio pwerau statudol yn neddfwriaeth leol awdurdod.

3.4 Mae cynnwys Rhan 2 y Cod yn nodi'r mesurau allweddol er mwyn sicrhau diogelwch morol. Mae hyn yn gynnwys gofyniad i gynnal asesiadau risg ffurfiol law yn llaw â'r adolygu parhaus ar bwerau cyfredol a hynny wedyn yn arwain at ffurfio a gweithredu system rheoli diogelwch morol er mwyn cadw'r risg mor isel ag sy'n ymarferol bosib. Mae'r gofynion ar i awdurdodau harbwr adolygu eu pwerau yn gyson, a defnyddio asesiadau risg, wedi'u nodi yn adrannau 2 a 3 o'r Cod.

3.5 Yn arbennig o berthnasol i'r GAH arfaethedig, mae para 2.4 o'r Cod yn darparu fel hyn: "*[a]dditional powers should be sought, if a risk assessment concludes that this would be*

*the best means of meeting their safety obligations".* Hefyd, mae para 3.12 o'r Cod yn darparu y gellir defnyddio gorchmynion adolygu harbwr, yng nghyd-destun cyffredinol diogelwch morol, i ymestyn terfynau harbwr.

3.6 Mae Adran 4 y Cod yn disgrifio'r pwerau allweddol sydd i gael eu hadolygu'n gyson, ac maent yn cynnwys:

3.6.1 cyfarwyddiadau

3.6.2 rheoleiddio llongau peryglus

3.6.3 goleuadau i reoli diogelwch wrth fordwyo

3.6.4 peilotiaeth.

3.7 Mae'r Canllaw yn nodi egwyddorion arferion gorau'r diwydiant er mwyn cydymffurfio â'r Cod. Mae para 1.9.4 o'r Canllaw yn disgrifio sut y gellir defnyddio'r broses gorchymyn adolygu harbwr fel y'i nodwyd yn Neddf Harbyrau 1964 i ddiwygio pwerau ac awdurdodaeth awdurdod harbwr i sicrhau cydymffurfio â'r Cod.

3.8 Mae'r Cod, y Canllaw a'r *Ports Good Governance Guidance* (cyhoeddwyd Mawrth 2018 gan yr Adran Drafnidiaeth), sy'n berthnasol i CPP fel awdurdod harbwr statudol, yn rhoi pwys ar bwysigrwydd swyddogaeth yr awdurdod harbwr o ran diogelwch y rheiny sy'n defnyddio'r harbwr. Mae hyn yn berthnasol i erthyglau gweithredol y GAH a'r amcan y maent wedi'u llunio ar ei gyfer. Gweler adran 5 o'r datganiad isod.

3.9 Yn unol â'r gofynion hyn sydd wedi'u nodi yn y Cod, mae CPP wedi adolygu ei phwerau yn Harbwr Port Talbot ac wedi dod i'r casgliad ei bod yn angenrheidiol ac yn ddymunol, er lles diogelwch, i ymestyn terfynau'r harbwr i ddelio â materion penodol ynghylch diogelwch mordwyo yn ymwneud ag angori a pheilotiaeth, fel y manylir isod.

3.10 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ("Cynllun Morol"), a fabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2019, yw'r cynllun morol perthnasol wedi'i lunio at bwrpas adran 51 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys nifer o amcanion sy'n cyd-fynd â phwrpas y GAH.

3.11 Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o themâu trawsbynciol a'r ail yw "Sicrhau economi forol gynaliadwy". Mae'r amcanion oddi fewn i'r thema hon yn cynnwys cyfrannu at economi ffyniannus yng Nghymru drwy hybu gweithgareddau economaidd gynhyrchiol a phroffidiol a busnesau cynaliadwy sy'n creu cyflogaeth hirdymor ar yr holl lefelau sgiliau; a darparu lle i gefnogi gweithgarwch economaidd yn awr ac yn y dyfodol drwy reoli amlddefnydd, gan hybu cydfodolaeth rhwng gweithgareddau cydweddol, lliniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr a, lle bo modd, drwy leihau'r gofyn i symud gweithgareddau presennol. Mae'r

Cynllun yn pwysleisio ym mhara 26 ei fod yn “darparu set integredig o amcanion a pholisïau ar gyfer datblygu ardal y Cynllun mewn ffordd gynaliadwy, ac felly, ni ddylid ystyried na chymhwyso'r amcanion, y polisïau na'r testun ategol ar eu pen eu hunain”.

3.12 Mae’r Cynllun hefyd yn cynnwys nifer o bolisïau sy’n ymwneud â sectorau penodol, un ohonyn nhw’n ymwneud â phorthladdoedd a llongau. Yr amcan i’r sector porthladdoedd a llongau yn y Cynllun yw diogelu llwybrau llongau sydd wedi’u hen sefydlu a chefnogi datblygu cynaliadwy yn y sector llongau a phorthladdoedd.

3.13 Drwy ymestyn terfynau’r harbwr yn unol â’r cynnig, ar ôl nodi pryderon penodol o ran diogelwch mordwyol yn ymwneud ag angori a pheilotiaeth, sy’n rhan o weithrediadau’r harbwr, bydd y GAH yn sicrhau bod yr harbwr yn parhau i weithredu’n ddiogel ac effeithlon. (Sylwer bod paragraff 414 y Cynllun yn nodi bod Port Talbot yn arbenigo mewn swmp-gludo.) Drwy alluogi llongau i fordwyo’n ddiogel yn yr harbwr, bydd y GAH yn hwyluso mwy o ddefnydd o’r harbwr, gan annog gweithgarwch sy’n gynhyrchiol yn economaidd. Wrth wneud hynny, mae’r cynnig yn cydymffurfio ag amcanion cyffredinol a sector-benodol yn y Cynllun.

3.14 Nid yw’r GAH yn awdurdodi unrhyw ddatblygiad ac o’r herwydd nid ystyrir fod â wnelo ef â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Porthladdoedd, Chwefror 2012.

## 4. DEDDF HARBYRAU 1964

4.1 Mae Adran 14 o DH 1964 yn rhoi pwerau i lunio gorchymyn o dan yr adran honno (a elwir yn orchymyn adolygu harbwr) mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal a'i gadw neu ei reoli gan awdurdod harbwr, wrth iddo arfer a chyflawni ei bwerau a'i ddyletswyddau statudol ar gyfer cyflawni pob un neu unrhyw rai o'r amcanion a grybwyllir yn Atodlen 2 i Ddeddf Harbyrau 1964.

4.2 Mae Adran 14(2)(a) o DH 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i anfon cais ysgrifenedig at Weinidogion Cymru gan yr awdurdod sy'n ymwneud â gwella, cynnal a chadw neu reoli'r harbwr o dan sylw, a rhaid i Weinidogion Cymru yn ôl adran 14(2)(b) fod yn

*"satisfied that the making of the order is desirable in the interests of securing the improvement, maintenance or management of the harbour in an efficient and economical manner or facilitating the efficient and economic transport of goods or passengers by sea or in the interests of the recreational use of sea-going ships".*

4.3 Mae'r materion sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2 i DH 1964 yn cynnwys, yn benodol, ym mharagraff 6:

*Settling (either for all purposes or for limited purposes) the limits within which the authority are to have jurisdiction or altering (either for all purposes or for limited purposes) such limits as previously settled.*

4.4 Am nad yw hwn yn gais am orchymyn adolygu harbwr sydd, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, yn awdurdodi prosiect (oddi mewn i ystyr paragraff 1 o Atodlen 3 i DH 1964), nid oes angen anfon rhybudd ymlaen llaw i Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(a) o Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964. [Fodd bynnag, ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ynghylch y cynigion.]

4.5 Mae'r cais am GAH o dan adran 14 o DH 1964 yn bodloni'r amodau sydd wedi'u nodi yn yr adran honno. Mae'r estyniad at yr harbwr yn dod o fewn yr amcanion sydd wedi'u nodi ym mharagraff 6 o Atodlen 2 o ran newid terfynau'r harbwr. Yn ychwanegol, mae'r cais yn bodloni gofynion:

(a) adran 14(1) o DH 1964 am ei fod yn cael ei wneud mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal a'i gadw neu ei reoli gan awdurdod harbwr yn rhinwedd arfer a chyflawni ei bwerau a'i ddyletswyddau statudol i'r diben o gyflawni amcanion sy'n dod o fewn Atodlen 2 i DH 1964; a

(b) adran 14(2) o DH 1964 am fod:

(i) y cais yn cael ei wneud ar ffurf cais ysgrifenedig gan awdurdod harbwr sydd yn gwella, cynnal a chadw neu reoli’r harbwr; a

(ii) mae llunio’r GAH yn ddymunol er mwyn gwella a rheoli’r harbwr mewn modd effeithlon ac economaidd drwy alluogi CPP i ymestyn system rheoli diogelwch gadarn, sydd wedi’i hen sefydlu, dros yr ardal ychwanegol lle mae angen i reolaeth mordwyo sicrhau bod y risg mor isel ag sy’n rhesymol ymarferol.

## 5. ANGEN A CHYFIAWNHAD AM GAH

5.1 Mae angen y GAH yn anad dim er mwyn diogelwch mordwyo. Yn ychwanegol i'w statws fel awdurdod harbwr statudol, mae CPP yn awdurdod harbwr cymwys yng nghyswllt Harbwr Port Talbot o dan Ddeddf Peilotiaeth 1987, ac wedi gwneud cyfarwyddyd peilotiaeth gorfodol o ran yr ardal y mae'n awdurdod felly arni. Nid yw'r ardal y mae gan CPP bwerau drosti fel awdurdod harbwr cymwys yn ymestyn y tu hwnt i derfynau presennol yr harbwr.

5.2 Mae'r angorfa dŵr dwfn a'r ardal codi peilotiaid sy'n gysylltiedig â Harbwr Port Talbot wedi'i dangos ar Gynllun 2 a atodwyd i'r Datganiad hwn. Mae terfynau harbwr presennol Harbwr Port Talbot bellter o naw (9) milltir fôr oddi wrth angorfa dŵr dwfn yr harbwr a'r ardal codi peilotiaid ddynodedig. Rhwng y terfynau harbwr presennol a'r ardal codi peilotiaid yn yr angorfa dŵr dwfn mae'r man dynodedig gwaredu gwastraff carthu, angorfa ddynodedig llai na 10m oddi ar arfordir Abertawe a'r Sarn Wystrys Gwyn.

5.3 Mae angorfa ddynodedig Port Talbot wedi'i lleoli bellter o Harbwr Port Talbot fel sy'n ofynnol i allu derbyn llongau dyfnder mawr iawn. Mae'r ardal codi a gollwng peilotiaid o reidrwydd wedi'i sefydlu yn yr ardal angori er mwyn gallu rheoli llongau llai dwfn i fordwyo'n ddiogel i godi a gollwg mewn mannau mwy cysgodol o Fae Abertawe, rhwng yr angorfa dŵr dwfn bresennol a therfynau presennol Harbwr Port Talbot.

5.4 Yn unol â gofynion y Cod o ran diogelwch morol ac asesiad(au) risg, trefnodd CPP adolygiad asesiad risg a pheilotiaeth - codi/gollwng - ym mis Ebrill 2021 (adolygwyd mis Chwefror 2022) a oedd yn tynnu sylw at y materion canlynol:

5.4.1 Roedd y gallu i godi a gollwng peilotiaid oddi fewn i egwyddorion ALARP (*as low as reasonably practicable*) yn angorfa dŵr dwfn Harbwr Port Talbot yn cyfyngu ar y gallu i ddocio a hwylio llongau yn yr harbwr cysgodol o fewn yr ystyriaethau ALARP perthnasol ar gyfer yr harbwr; a

5.4.2 Byddai mordwyo heb beilot i ardal ddiogel i godi a / neu ollwng peilot mewn man sy'n cynnal egwyddorion ALARP o ran codi a gollwng peilotiaid yn ei gwneud yn ofynnol i longau fordwyo i ac o ardal lle mae amryw o beryglon mordwyo (gweler Cynllun 2 a atodwyd i'r Datganiad hwn).

5.5 Cydnabyddir bod y sefyllfa a ddisgrifir uchod yn creu gwrthdaro â dyletswydd awdurdod yr harbwr i reoli gweithrediadau morol yn effeithiol a diogel o fewn yr harbwr a'r llwybrau dynesu.

5.6 Yn ychwanegol, mae angen aseswyr ac adolygwyr risg morol cymwys ar system rheoli diogelwch morol CPP i ystyried digwyddiadau a chanlyniadau ymchwiliadau sydd wedi digwydd yn ardaloedd harbyrau eraill, fel rhan o'r broses leol i adolygu risg a gwella'n barhaus, ac yn unol â'r Cod. O'r herwydd, ac yn dilyn digwyddiadau yn Harbwr Port Talbot ac mewn porthladdoedd eraill, trefnodd CPP adolygiad o'r angorfeydd ym Mae Abertawe yn cynnwys angorfa Port Talbot ym mis Rhagfyr 2021. Canfu'r adolygiad rai materion yn ymwneud â diogelwch angori a oedd i'w priodoli i leoliad yr angorfeydd y tu allan i derfynau harbwr Port Talbot. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

5.6.1 Does gan CPP ddim pwerau i orchymyn mannau angori, bylchau nac amgylchiadau oddi fewn i angorfeydd sydd wedi'u sefydlu eisoes;

5.6.2 Does gan CPP ddim pwerau i orchymyn defnyddio trefn cynllunio pasio ar gyfer llongau sydd â pheilot na'r rhai sydd heb beilot wrth ddynesu at angorfeydd neu adael angorfeydd i godi peilotiaid ar adegau o dywydd gwael;

5.6.3 Does gan CPP ddim pwerau i sefydlu cyfarwyddyd cyffredinol rhesymol i angori a symud i ac o leoliadau codi / gollwng peilotiaid yn ddiogel na chwaith o ran terfynau presennol yr Ardal Harbwr Statudol (AHS);

5.6.4 Does gan CPP ddim pwerau i ddefnyddio cyfarwyddyd penodol mewn amgylchiadau diogelwch mordwyo penodol i sicrhau diogelwch mordwyo ar adegau o dywydd gwael: a

5.6.5 heb y pwerau a ddisgrifir ym mhwyntiau 5.6.1 i 5.6.4, ni fyddai ymestyn darpariaeth gwasanaeth 24-awr y porthladd lleol a'r cynllun rheoli diogelwch morol sydd wedi'i sefydlu ynddo'i hun yn darparu'r lefel angenrheidiol o reoli diogelwch.

5.7 Bydd yr estyniad arfaethedig at derfynau harbwr Port Talbot yn delio â materion diogelwch penodol o ran angori a mordwyo gan beilotiaid, yn ogystal ag ymestyn pwerau eraill megis symud llongddrylliadau a goleuo a marcio mewn cysylltiad â mordwyo diogel. Bydd yn galluogi CPP i ymestyn system rheoli diogelwch gadarn sydd wedi'i hen sefydlu dros yr ardal ychwanegol y mae'n ofynnol rheoli mordwyo ynddi er mwyn cynnal egwyddorion ALARP.

5.8 Cred CPP bod yr estyniad arfaethedig hwn nid yn unig yn unol â'r gofyniad yn y Cod i adolygu pwerau ac awdurdodaeth ond hefyd y gofyniad i geisio'r pwerau sydd eu hangen i reoli diogelwch morol yn effeithlon.

5.9 Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r cyfiawnhad a'r angen am GAH yn dibynnu'n bennaf ar ystyriaethau gwasanaethu trafnidiaeth bresennol y porthladd. Fodd bynnag, ac yn ychwanegol at hynny, mae gan CPP ddyheadau i hyrwyddo datblygiad y porthladd ymhellach er mwyn manteisio ar gyfleoedd o ran melinau gwynt arnofiol oddi ar yr arfordir. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr estyniad at derfynau'r harbwr, fel y mae wedi'i gynnig yn y GAH, yn help i ganiatáu defnydd diogel o'r porthladd i wasanaethu cyfleusterau melinau gwynt posib oddi ar yr arfordir yn y dyfodol.

5.10 Byddai GAH yn awdurdodi ymestyn pob pŵer ac awdurdodaeth sydd gan CPP fel awdurdod harbwr ar hyn o bryd dros y terfynau harbwr sydd wedi'u dynodi yn Neddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1971 i'r ardal ychwanegol (fel y'i diffiniwyd yn y GAH arfaethedig ac a ddangosir yng Nghynllun 2 sydd ynghlwm). I osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr ardal ychwanegol yn cynnwys yr ardal lai yr estynnwyd pwerau cyfyngedig yr harbwr feistr drosti o dan Ddeddf Cymdeithas Porthladdoedd Prydain 1990. Pwrpas yr estyniad hwn yw delio â materion diogelwch mordwyo penodol, yn ymwneud ag angori a peilotiaeth, y mae CPP wedi'u nodi yn unol â'i rhwymedigaethau o dan y Cod.

5.11 Mae'r eglurhad o bob erthygl o sylwedd yn y GAH arfaethedig, a'r angen amdano, wedi'u nodi isod. Nid ymdrinnir ag erthyglau 1 a 2 o'r GAH isod am eu bod yn ategol at y darpariaethau o sylwedd yn y GAH.

**Erthygl 3 – Ymestyn terfynau awdurdodaeth**

5.12 Mae'r erthygl hon yn awdurdodi ymestyn Harbwr Port Talbot o'r terfynau fel maen nhw wedi'u diffinio yn Neddf Rheilffordd a Dociau Port Talbot 1899 a'u hymestyn ymhellach gan Ddeddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1971 i gynnwys yr ardal ychwanegol. Disgrifir yr ardal ychwanegol yn Atodlen 1 o'r GAH a'i dangos at ddibenion adnabod ar y cynllun yn Atodlen 2.

5.13 Yn ôl Erthygl 3(2) bydd yr un hawliau, pwerau, dyletswyddau, rhwymedigaethau neu atebolrwyddau sydd mewn grym neu wedi'u gosod ar CPP neu'r harbwr feistr o ran y terfynau harbwr presennol yn ymestyn heb ddiwygiadau dros yr ardal ychwanegol, yn ddarostyngedig i'r amodau yn erthygl 4. Mae hyn i sicrhau bod awdurdodaeth awdurdod yr harbwr yn gyson ar draws holl ardal yr harbwr ar ôl ymestyn y terfynau.

5.14 Sylwer bod yr ardal ychwanegol yn cynnwys yr ardal honno yr estynnwyd pwerau cyfyngedig drosti, o ran yr harbwr feistr yn unig, o dan adran 16 o Ddeddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1990. Eto, mae hyn er sicrhau nad oes anghysondeb yn awdurdodaeth awdurdod yr harbwr a'r harbwr feistr ar draws holl ardal yr harbwr ar ôl diwygio'r terfynau.

**Erthygl 4 – Cymhwyso deddfwriaeth gyfredol**

5.15 Yn ôl yr erthygl hon mae Deddf Cymalau Pierau, Dociau a Harbyrau 1847 yn weithredol o fewn yr ardal ychwanegol am iddi gael ei chorffori yn Neddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1964. Hyn er mwyn sicrhau bod y pwerau sydd mewn grym ar draws terfynau estynedig yr harbwr ac, felly, awdurdodaeth awdurdod yr harbwr yn gyson.

5.16 Mae erthygl 4(2) yn darparu na fydd yr is-ddeddfau presennol yn gymwys i'r ardal ychwanegol. Hyn am nad ydyn nhw'n berthnasol i'r ardal dan sylw.

5.17 Yn ôl Erthygl 4(3) does yna ddim tollau i'w codi ar longau, nwyddau na theithwyr o ran y llongau hynny sy'n hwylio heibio neu'n angori oddi fewn i'r ardal ychwanegol ar eu ffordd i neu o ba le bynnag y tu allan i Harbwr Port Talbot. Hyn i atal talu ffioedd ychwanegol gan drafnidiaeth sydd yn pasio drwy'r ardal ychwanegol a'r safle angori ar eu ffordd i borthladdoedd eraill.

5.18 Mae erthygl 4(4) yn darparu nad yw ffioedd peilotiaeth yn daladwy gan unrhyw long â pheilot sy'n mynd drwy'r ardal ychwanegol ar ei ffordd i neu o unrhyw ardal sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd peilotiaeth gorfodol a wneir gan awdurdod harbwr cymwys yr ardal honno. Hyn er mwyn atal ffioedd peilotiaeth ychwanegol rhag cael eu talu gan longau sy'n pasio drwy'r ardal ychwanegol i'r ardal arall neu ohoni. Mae erthygl 4(5) yn diffinio harbwr cymwys a chyfarwyddyd gorfodol i beilotiaid.

## 6. YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU CYN YMGEISIO

### Canllawiau Cyn Ymgeisio

6.1 Mae Canllaw Llywodraeth Cymru i'r Gweithdrefnau Gorchymyn Harbwr yng Nghymru (2018) ('Canllaw 2018') yn nodi'n glir bod cam cyn ymgeisio gorchymyn harbwr yn rhan hanfodol o'r broses ymgeisio. Mae'r Canllaw (paragraff 5.1) yn annog Ymgeiswyr yn gryf i siarad yn gynnar yn y broses gyda rhanddeiliaid ac yn disgrifio'r cais fel "*proses lle bo'n rhaid ymgysylltu, ymgynghori a chynnal unrhyw asesiad amgylcheddol sydd ei angen cyn gwneud cais*".

6.2 Mae paragraff 5.2 o Ganllaw 2018 yn nodi "*Mae ymgysylltu trylwyr ac ystyrlon gyda chymunedau, awdurdodau cynllunio lleol, ymgyngoreion statudol a phartïon eraill sydd â buddiant yng nghyfnodau cynnar prosiect yn rhoi cyfle i ddatblygwyr oresgyn materion na fyddent fel arall yn dod i'r amlwg tan yr ymgymerir â'r ymgynghoriad ffurfiol cyn ymgeisio ymhellach ymlaen yn y broses*."

### Agwedd CPP at Ymgynghori

6.3 Mae CPP wedi ymrwymo i ymgysylltu ac ymgynghori cyn cyflwyno i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i gymryd rhan a rhoi sylwadau ar y cais drafft cyn iddo gael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad statudol.

6.4 Nododd yr Ymgeisydd gyfres o randdeiliaid statudol ac anstatudol i geisio ymgysylltu â nhw cyn cyflwyno cais. Paratowyd y rhestr rhanddeiliaid gan ystyried paragraff 5.6 ac Atodiad B Canllaw 2018. Mae rhestr y rhanddeiliaid i'w gweld yn **Nhabl 1** isod.

*Tabl* ***1**: **Rhestr o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw***

| Rhanddeiliad | Rhestrir fel ymgynghorai yn y canllaw |
|---|---|
| **Awdurdod Harbwr Bryste** | Do - Awdurdodau Harbwr perthnasol eraill - defnyddio angorfa |
| **Cymdeithas Porthladdoedd Prydain** | Do |
| **Ystâd y Goron** | Do |
| **Awdurdod Cadwraeth Pysgodfeydd y Glannau** | Do |
| **Y Gymdeithas Cadwraeth Forol** | Do |
| **Y Gangen Polisi Morol (Llywodraeth Cymru)** | Do |

| | |
|---|---|
| **Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau** | Do |
| **Awdurdod Harbwr Aberdaugleddau** | Do - Awdurdodau Harbwr perthnasol eraill - defnyddio angorfa |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** | Do |
| **Awdurdod Porthladd Castell-nedd** | Do - Awdurdodau Harbwr perthnasol eraill - |
| **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** | Do - awdurdod cynllunio a phriffyrdd lleol |
| **Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar** | Do |
| **Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol** | Do |
| **Cyngor Abertawe** | Do - awdurdod cynllunio a phriffyrdd lleol |
| **Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu** | Do |
| **Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** | Do |
| **Trinity House** | Do |
| **Siambr Morgludo'r DU** | Do |
| **Grŵp Prif Borthladdoedd y DU** | Do |
| **Sifil a Morol (sment)** | Naddo – Defnyddio harbwr Port Talbot |
| **The Mission to Sea Farers** | Naddo – Grŵp buddiant |
| **Clybiau hwylio lleol – Clwb Cychod Afan** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Clybiau hwylio lleol – Clwb Hwylio Môr Hafren** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Clybiau hwylio lleol – Clwb Hwylio a Mordeithio Monkstone** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Clybiau hwylio lleol – Clwb Hwylio'r Mwmbwls** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Clybiau hwylio lleol – Clwb Hwylio a Thanddwr Abertawe** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Clybiau hwylio lleol - Clwb Hwylio Tata Steel** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Cadlanciau Môr Port Talbot** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Marina Abertawe** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |

| | |
|---|---|
| **YMCA** | Naddo – Grŵp defnyddwyr lleol |
| **Aelodau Lleol o'r Senedd** | Naddo – Rhanddeiliaid gwleidyddol |
| **AS Lleol** | Naddo – Rhanddeiliad gwleidyddol |
| **Hanson** | Naddo – Defnyddio harbwr Port Talbot |
| **Tarmac** | Naddo – Defnyddio harbwr Port Talbot |
| **Tata** | Naddo – Defnyddio harbwr Port Talbot |

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

6.5 Defnyddiwyd y cam ymgynghori cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r cais a'i gwneud yn glir fod yr Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno GAH nad yw'n un "gwaith". Roedd y deunydd ymgynghori yn cynnwys tudalen we benodol gyda dogfennau cais drafft, gwybodaeth fanwl am y cais, a'r broses ar gyfer cyflwyno adborth. Roedd tudalen we'r ymgynghoriad yn 'fyw' o ddydd Mawrth 25 Ebrill 2023 tan ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023.

6.6 Er mwyn hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad, mae'r Ymgeisydd:

- Wedi cysylltu drwy e-bost neu drwy dudalennau cyswllt ar-lein â'r sefydliadau rhanddeiliaid a restrir yn Nhabl 1 i roi gwybod am y cyfnod ymgynghori, ble roedd rhagor o wybodaeth ar gael a sut i roi adborth.

- Wedi trefnu i hysbyseb gael ei chyhoeddi mewn papur newydd lleol, South Wales Evening Post, ac ar wefan Wales Online (walesonline.co.uk). Mae gan y South Wales Evening Post gylchrediad o dros 7,000 o gopïau gan gynnwys ardal Port Talbot. Roedd yr hysbyseb ar-lein yn 'fyw' ar y wefan am bythefnos o ddechrau'r ymgynghoriad. Roedd 99,997 o argraffiadau (y nifer o weithiau y mae'n ymddangos ar dudalen we), bu'n cael eu gweld am dros 1,000 o oriau a chafwyd cyfanswm o 307 o gliciau drwodd i wefan yr ymgynghoriad. Roedd yr hysbyseb yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Wedi anfon e-bost hysbysu at randdeiliaid statudol a rhanddeiliaid anstatudol i'w gwneud yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a rhoi cyfle iddynt gwrdd â Thîm y Prosiect a rhoi adborth.

- Wedi llunio taflen gyda manylion cynigion y cais, a oedd ar gael drwy ofyn. Roedd y daflen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

6.7 Mae'r deunydd ymgynghori, gan gynnwys y wefan, yr hysbyseb (copi caled ac ar-lein), a'r daflen wybodaeth, yn **Atodiad A** y Datganiad hwn.

**Adborth i'r Ymgynghoriad ac Ymateb yr Ymgeisydd**

6.8 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd yr Ymgeisydd gyfres o gyfarfodydd gyda'r rhanddeiliaid canlynol i drafod y cynigion:

- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Awdurdod Porthladd Castell-nedd;
- Ystâd y Goron;
- Llywodraeth Cymru;
- Trinity House; a
- Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

6.9 Erbyn diwedd yr ymgynghoriad, roedd yr Ymgeisydd wedi cael gohebiaeth gan 12 rhanddeiliad, gan gynnwys cydnabyddiaeth o fwriad yr Ymgeisydd i gyflwyno'r cais; cwestiynau ac ymholiadau ynghylch y cais; ac ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd.

6.10 Ceir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a natur yr ohebiaeth isod:

1. Roedd Porthladd Bryste yn cydnabod cais arfaethedig yr Ymgeisydd.

2. Cyflwynodd Cymdeithas Porthladdoedd Prydain ymateb i'r ymgynghoriad yn datgan eu cefnogaeth i'r cais.

3. Ni chododd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau wrthwynebiad ac nid oedd ganddi unrhyw bryderon ynghylch cynigion y GAH. Gofynnwyd am eglurhad ar nifer fach o bwyntiau, yn enwedig o ran asesu risg a'r rhyngwyneb â'r system rheoli diogelwch morol. Ymatebodd yr Ymgeisydd i'r pwyntiau hyn yn ystod yr ymgynghoriad ac mae wedyn wedi darparu rhagor o wybodaeth drwy ddarparu adroddiad penodol.

4. Ni chododd y Gymdeithas Cadwraeth Forol wrthwynebiad ond gofynnodd gwestiynau ynghylch maint y carthu ychwanegol. Ymatebwyd i'r rhain yn ystod yr ymgynghoriad.

5. Ymatebodd Mike Hedge AS gan gefnogi'r cais arfaethedig.

6. Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru fynegi gwrthwynebiad ond gofynnodd am eglurhad ar nifer o bwyntiau yn ystod yr ymgynghoriad gan gynnwys: y cynnydd posibl mewn traffig llongau, yr effaith ar drwyddedau carthu, a'r angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Ymatebodd yr Ymgeisydd yn ysgrifenedig a chyfarfu â Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu'r esboniadau hyn. Mae'r Ymgeisydd wedi nodi'r hysbysiadau cynghori dilynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

7. Nid oedd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot unrhyw wrthwynebiad i'r cais arfaethedig.

8. Nododd Awdurdod Porthladd Castell-nedd chwe gwrthwynebiad posibl i'r cais ond mynegodd ei ddymuniad i ddatrys y rhain fel rhan o drafodaethau parhaus. Roedd yr Ymgeisydd wedi ymgysylltu ag Awdurdod Porthladd Castell-nedd yn ystod ac ar ôl cau'r ymgynghoriad ac wedi datrys, cyn belled ag y bo modd, y chwe gwrthwynebiad posibl a amlinellwyd yn yr ymateb.

9. Gofynnodd Ystâd y Goron am eglurder p'un a oedd angen cynnwys cymal arbed y Goron yn y GAH drafft ac ynghylch echdynnu agregau morol. Mae'r Ymgeisydd wedi ymateb i'r pwyntiau hyn ac nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r GAH drafft.

10. Cyflwynodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymateb i'r ymgynghoriad i ddweud na fyddent yn gwneud sylwadau ar y cais.

11. Mynegodd y Gymdeithas Hwylio Frenhinol bryder i ddechrau ynghylch hyd y cyfnod ymgynghori ac ni chyflwynodd sylwadau tra oedd yn ymgynghori â chlybiau hwylio lleol. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gymdeithas yn dilyn yr ymgynghoriad ddydd Llun 26 Mehefin lle gofynnwyd am estyniad o bythefnos er mwyn gallu ymgynghori â chlybiau hwylio lleol. Yn sgil ymgynghori â chlybiau hwylio lleol, cadarnhaodd y Gymdeithas eu bod yn fodlon â'r cais fel y mae ar hyn o bryd.

12. Ni chododd Trinity House wrthwynebiad a chroesawodd y cyfle i roi sylwadau ar y cais. Awgrymodd newidiadau i'r ardal AHS a gofynnodd am ymgysylltu ychwanegol ynghylch dau fwi mordwyol a mân esboniadau ar y GAH ac egluro mân faterion eraill. Mewn ymateb, mae'r Ymgeisydd wedi mabwysiadu'r newidiadau a awgrymwyd i'r ardal AHS, wedi rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r bwiau yn y dyfodol, ac wedi ymateb i'r ceisiadau am esboniadau ychwanegol.

6.11 Ceir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb yr Ymgeisydd yn **Atodiad B** y Datganiad hwn.

6.12 O ganlyniad i'r ymgynghori a'r ymgysylltu cyn cyflwyno a wnaed gan yr Ymgeisydd, gwnaeth yr Ymgeisydd nifer fach o newidiadau i'r GAH drafft a darparwyd gwybodaeth ychwanegol. Yn gryno, mae hyn yn cynnwys:

(a) Mae maint yr estyniad i'r AHS wedi cael ei ddiwygio i gau bwlch a nodwyd gan Trinity House. Adlewyrchir hyn yn y cynlluniau a gyflwynwyd;

(b) Arbediad ychwanegol wedi'i ychwanegu at y GAH drafft ynghylch ffioedd peilotiaeth ar gais Awdurdod Porthladd Castell-nedd; a

(c) Darparwyd gwybodaeth ychwanegol ar ffurf adroddiad Asesiad Risg Mordwyo am yr achos anghenion a diogelwch yn ymwneud ag ymestyn yr AHS.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio**

6.13 Mae'r Ymgeisydd wedi ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn ystyrlon â rhanddeiliaid cyn cyflwyno'r cais. Ceisiodd yr Ymgeisydd ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid statudol ac anstatudol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynigion a'r ymgynghoriad, cyn cyflwyno'r cais hwn. Ystyrir bod hyn yn adlewyrchu Canllaw'r Llywodraeth i'r Gweithdrefnau.

## 7. Casgliad

7.1 Am y rhesymau a esboniwyd uchod ystyrir bod ymestyn terfynau Harbwr Port Talbot yn ddymunol er diogelu rheolaeth yr harbwr mewn modd effeithlon ac economaidd a bodloni gofynion Adran 14(2)(b) o DH 1964 a'i fod yn ddymunol o ran lles cyhoeddus cyffredinol.

**ATODIAD A**

Deunydd Ymgynghori Cyhoeddus

## Ffigur 1: Gwefan yr ymgynghoriad (fersiwn storfa):

*https://southwalesports.co.uk/Consultations/Port_Talbot_Non_Works_HRO_consultation/*

### Port Talbot Non Works Harbour Revision Order (HRO) Consultation - Extension of Harbour Powers

Please click here for more information on ABP's consultation (English Version)

Please click here for more information on ABP's consultation (Welsh Version)

Please click here for an English version of the draft Harbour Revision order, please click here for Figure 1

Please click here for a Welsh version of the draft Harbour Revision order

Please click here for an English version of the draft statement of support, please click here for Figure 2

Please click here for a Welsh version of the draft statement of support

YMWADIAD: Dim ond ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn y bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio. Mae ABP wedi dewis defnyddio Copper Consultancy i helpu i gasglu a rheoli gwybodaeth ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei ddefnyddio drwy fynd i'n Hysbysiad Preifatrwydd – www.abports.co.uk/support/privacy-notice/

DISCLAIMER: The information you provide will only be used in conjunction with this consultation. ABP have chosen to use Copper Consultancy to assist in the collection and management of information for this consultation. You can find out more about how your personal data is used by visiting our Privacy Notice – www.abports.co.uk/support/privacy-notice/

**Ffigur 2: Hysbyseb ymgynghori ar gyfer y South Wales Evening Post a Wales Online**

## YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS: GORCHYMYN DIWYGIO HARBWR NAD YW'N YMWNEUD Â GWAITH CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN (ABP)

## PUBLIC CONSULTATION: ASSOCIATED BRITISH PORTS (ABP) NON-WORKS HARBOUR REVISION ORDER

Mae Cymdeithas Porthladdoedd Prydain (ABP) yn paratoi cais i Lywodraeth Cymru, ar gyfer Gorchymyn Diwygio Harbwr neu HRO. Pwrpas y cais hwn yw gwella diogelwch mordwyo morol ac effeithlonrwydd gweithredol harbwr Port Talbot.

Mae ABP nawr yn cynnal ein hymgynghoriad chwe wythnos ein hunain a fydd yn cael ei gynnal rhwng **25 Ebrill 2023 a 6 Mehefin 2023**. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am pam ein bod yn bwriadu gwneud y cais hwn, neu ofyn unrhyw gwestiynau i ni, ewch i'n gwefan sy'n cynnwys rhagor o fanylion.

**Ein Gwefan:** https://southwalesports.co.uk/Consultations/
**Dros y ffôn:** 08008402750
**Dros e-bost:** info@abpporttalbot.co.uk

Associated British Ports (ABP) is preparing an application to the Welsh Government, for a Harbour Revision Order or HRO. The purpose of this application is to improve the marine navigational safety and operational efficiency of Port Talbot harbour.

ABP is now undertaking our own six-week consultation which will take place from **25 April 2023 until 6 June 2023**. Should you wish to find out more about why we are intending to make this application, or to ask us any questions, please visit our website which has further details.

**Our Website:** https://southwalesports.co.uk/Consultations/
**By telephone:** 08008402750
**By email:** info@abpporttalbot.co.uk

ABP | ASSOCIATED BRITISH PORTS

# Ffigur 3: Taflen Ymgynghori – Fersiwn Gymraeg

## Cysylltwch â ni


Cyn i ni gyflwyno'r cais i Lywodraeth Cymru, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar yr hyn rydym yn ei gynnig. Mae'r dogfennau cais drafft, gan gynnwys yr offeryn statudol arfaethedig a datganiad ategol yn egluro'r angen am y cais, ar gael ar ein gwefan ymgynghori drwy fynd i https://southwalesports.co.uk/Consultations/

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys manylion ynghylch sut i roi adborth a gwybodaeth gyswllt os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cais. Rydym wedi ymrwymo i wrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud am y cais a byddwn yn ystyried safbwyntiau a sylwadau ein cymdogion a'n rhanddeiliaid.

**Gwefan:** https://southwalesports.co.uk/Consultations/
**Dros y ffôn:** 0800 840 2750
**Drwy e-bost at:** info@abpporttalbot.co.uk

**YMWADIAD:** *Dim ond ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn y bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio. Mae ABP wedi dewis defnyddio Copper Consultancy i helpu i gasglu a rheoli gwybodaeth ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei ddefnyddio drwy fynd i'n Hysbysiad Preifatrwydd –* ***www.abports.co.uk/support/privacy-notice/***

ASSOCIATED BRITISH PORTS




## Gwybodaeth am y cais

Mae Cymdeithas Porthladdoedd Prydain (ABP) yn paratoi cais i Lywodraeth Cymru, ar gyfer Gorchymyn Diwygio Harbwr neu HRO. Pwrpas y cais hwn yw gwella diogelwch mordwyo morol ac effeithlonrwydd gweithredol harbwr Port Talbot.

Bydd y cais yn ymestyn ardal awdurdodaeth ABP fel yr Awdurdod Harbwr Statudol (SHA). Mae SHA yn gyrff statudol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg harbwr.

Mae'r cais HRO yn cynnig ymestyn yr ardal lle gallwn fynd ati i reoli mynediad morol i'r harbwr ac oddi yno, ymhellach i Fae Abertawe. Bydd hyn yn ei gwneud yn fwy diogel i gychod a'r bobl sy'n gweithio arnynt deithio i'r harbwr ac oddi yno.

## Y rhesymau dros ein cais

Mae diogelwch wrth galon ein gwerthoedd. Rydym yn hyderus bod ein gweithrediadau presennol yn bodloni'r holl ofynion diogelwch a rheoleiddio. Fodd bynnag, mae adolygiad diweddar wedi tynnu sylw at ragor o ffyrdd o wella diogelwch gweithrediadau morol. Un enghraifft yw drwy ganiatáu i beilotiaid morol, sy'n tywys llongau ar eu milltiroedd olaf i'r porthladd ac oddi yno, fynd ar gychod ac oddi arnynt yn nes at y lan lle mae'r môr yn dawelach ar y cyfan.

Mae'r cais hwn yn allweddol ar gyfer caniatáu newidiadau fel y rhain ac felly gallu ABP i weithredu harbwr Port Talbot mor ddiogel â phosibl.

Bydd gwell mynediad diogel i'r harbwr hefyd yn helpu i sicrhau hyfywedd parhaus y porthladd, nawr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr harbwr yn gweithredu ar gyfer y tymor hir a'r busnesau cysylltiedig, a'r swyddi sy'n dibynnu arno, yn enwedig yng ngoleuni'r potensial cyffrous ar gyfer buddsoddi a thyfu yn y dyfodol a fydd yn deillio o roi statws Porthladd Rhydd i Bort Talbot ac ynni gwyrdd arfaethedig ar y Môr Celtaidd.

Nid yw'r cais yn cynnwys unrhyw weithgarwch adeiladu. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw effaith weledol na sŵn ar drigolion lleol. Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i'r newidiadau i awdurdodaeth yr SHA ac ni fydd unrhyw newid yng ngofynion ABP i gydymffurfio â thrwyddedu morol a deddfwriaeth amgylcheddol.

## Cwestiynau cyffredin

### Pam ydych chi'n ymgeisio am y cais hwn?

Mae'r rhaglen hon yn helpu ABP i weithredu'r porth yn fwy diogel ac effeithlon. Mae hyn yn unol â'n rhwymedigaethau statudol fel Awdurdod Harbwr Statudol (SHA) ac mae'n gwella diogelwch i'r rheini sy'n defnyddio ein porthladd. Mae SHA yn gyrff statudol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg harbwr.

Mae diogelwch wrth galon ein gwerthoedd. Rydym yn hyderus bod ein gweithrediadau presennol yn bodloni'r holl ofynion diogelwch a rheoleiddio. Bydd y newidiadau i'r ardal lle mae gennym fwy o reolaeth fordwyol yn sicrhau ein bod yn gallu gweithredu'r porthladd mor ddiogel ac effeithlon ag sy'n ymarferol ac, yn bwysicaf oll, yn cadw pobl sy'n gweithio yn y porthladd ac ar y cychod sy'n defnyddio'r porthladd, yn fwy diogel.

### Sut mae ehangu'r ardal ym Mae Abertawe rydych chi'n gyfrifol amdani yn gwneud pethau'n fwy diogel?

I roi enghraifft, mae'n rhaid i beilotiaid morol, sy'n tywys llongau ar eu milltiroedd olaf i'r porthladd ac oddi yno, fynd ar gwch ac oddi arno o'r angorfa dŵr dwfn (9 milltir i'r de o ben y Mwmbwls). Yn gyffredinol, mae amodau'r môr yma ddwywaith mor ddrwg ag y maent yn nes at y lan lle mae'r môr fel arfer yn dawelach. Mae ymestyn yr ardal lle mae gennym fwy o reolaeth fordwyol yn rhoi mwy o gyfleoedd i beilotiaid fynd ar gychod ac oddi arnynt yn yr amgylchedd mwy diogel yma.

### Pam nawr?

Mae'r newidiadau rydym yn ceisio eu gwneud yn ymateb i gyfleoedd i wella diogelwch ein gweithrediadau morol ymhellach. Nodwyd y rhain yn yr adolygiad diweddaraf a gynhaliwyd gennym o'r gweithrediadau hyn yn 2022. Yr arfer gorau (o dan rywbeth o'r enw 'Cod Diogelwch Porth a Morol') yw parhau i adolygu gweithdrefnau a chanfod cyfleoedd i wella.

### A yw'r newidiadau rydych chi'n gofyn amdanynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'ch cynlluniau, fel y Porthladd Rhydd, i ddatblygu Port Talbot fel lleoliad busnes?

Mae'r newidiadau rydym yn eu ceisio drwy'r Gorchymyn Diwygio Harbwr (HRO) yn cael eu sbarduno gan yr awydd i wneud gwelliannau diogelwch parhaus, ac yn canolbwyntio ar hynny.

Mae cyhoeddiadau diweddar, fel cael statws Porthladd Rhydd i Bort Talbot, yn cynnig dyfodol cyffrous posibl i Bort Talbot fel lleoliad ar gyfer buddsoddiad newydd, twf swyddi da a mwy o ffyniant lleol. Bydd y gallu i reoli traffig morol yn ddiogel yn ardal Port Talbot yn bwysicach fyth mewn dyfodol a allai fod yn fwy bywiog a deinamig i'r porthladd.

### Pryd fydd hyn yn digwydd?

Byddwn yn awr yn cynnal cyfnod ymgynghori o chwe wythnos gyda'n cymdogion a'n rhanddeiliaid ynghylch y cais. Ar ôl yr ymgynghoriad hwn ac ystyried yr ymatebion, bydd ein cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, bydd yn cynnal ei hymgynghoriad ei hun er mwyn cael cyfle arall i roi adborth. Bydd gennym hefyd linell ffôn, gwefan a chyfeiriad e-bost arbennig lle gallwch gysylltu i ofyn cwestiynau neu i roi adborth.

### A fydd unrhyw darfu arnaf fi fel preswylydd lleol?

Ni fydd yr HRO hwn, os caiff ei ganiatáu, yn golygu unrhyw newidiadau ffisegol na gweithgarwch adeiladu i'n porthladd. Felly, ni ddylai'r gymuned leol ddisgwyl unrhyw aflonyddwch nac effaith weledol fel rhan o'r cais hwn.

### Sut mae hyn yn gwneud Port Talbot yn fwy diogel?

Bydd y newidiadau i ardal yr Awdurdod Harbwr Statudol (SHA) yn gwneud ein porthladd yn fwy diogel mewn nifer o ffyrdd. Bydd y newidiadau'n ehangu ardal yr harbwr o dan ein rheolaeth, gan roi mwy o opsiynau i ni gyrraedd llongau mewn amodau môr mwy diogel a helpu i'w treialu yn y porthladd, gan ystyried amodau'r tywydd.

### A fydd y newidiadau yn eich awdurdodaeth Awdurdod Harbwr Statudol yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol yn sgil gweithrediadau o ddydd i ddydd?

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Mae'r cais yn ymwneud â ffin weinyddol yr Awdurdod Harbwr Statudol ac nid yw'n cynnwys gwaith adeiladu. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rheoli gweithgareddau yn yr amgylchedd morol gan gynnwys trwyddedu morol – rydym wedi arfer gweithio gyda rhanddeiliaid a rheoleiddwyr i fodloni'r gofynion hyn a byddwn yn parhau i wneud hynny.

### Beth yw manteision masnachol y cais hwn?

Bydd mynediad mwy effeithlon i'r harbwr hefyd yn sicrhau hyfywedd masnachol parhaus y porthladd, nawr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dyfodol hirdymor yr harbwr, busnesau cysylltiedig a swyddi.

Mae cyhoeddiadau diweddar, fel cael statws Porthladd Rhydd, yn cynnig dyfodol cyffrous posibl i Bort Talbot fel lleoliad ar gyfer buddsoddiad newydd, twf swyddi da a mwy o ffyniant lleol. Bydd y gallu i reoli traffig morol yn ddiogel yn ardal Port Talbot mewn dyfodol mwy bywiog a deinamig o bosibl yn bwysicach fyth.



## Ffigur 4: Taflen Ymgynghori – Fersiwn Saesneg

### Get in touch

Before we submit the application to Welsh Government, we would welcome any comments you may have on what we propose. You can find the draft application documents, including the proposed statutory instrument and a supporting statement explaining the need for the application, on our consultation website by visiting https://southwalesports.co.uk/Consultations/

The website also includes details of how to provide feedback and contact information should you have any questions about the application. We are committed to listening to what people have to say about the application and will consider the views and comments of our neighbours and stakeholders.

**Website:** https://southwalesports.co.uk/Consultations/
**By telephone**: 0800 840 2750
**By email:** info@abpporttalbot.co.uk

**DISCLAIMER:** *The information you provide will only be used in conjunction with this consultation. ABP have chosen to use Copper Consultancy to assist in the collection and management of information for this consultation. You can find out more about how your personal data is used by visiting our Privacy Notice –* ***www.abports.co.uk/support/privacy-notice/***

ASSOCIATED BRITISH PORTS

# Non-Works Harbour Revision Order (HRO) application

Further information and next steps

### About the application

Associated British Ports (ABP) is preparing an application to the Welsh Government, for a Harbour Revision Order or HRO. The purpose of this application is to improve the marine navigational safety and operational efficiency of Port Talbot harbour.

The application will extend ABP's area of jurisdiction as the Statutory Harbour Authority (SHA). SHA's are statutory bodies responsible for the management and running of a harbour. The HRO application proposes to extend the area in which we can actively manage marine access to and from the harbour, further into Swansea Bay. This will make it safer for vessels and the people working on them to travel to and from the harbour.

### The reasons for our application

Safety is at the heart of our values. We are confident that our existing operations are meeting all safety and regulatory requirements. However, a recent review has highlighted further ways we can improve the safety of maritime operations. One example is by allowing maritime pilots, who guide vessels on their final miles to and from the port, to get on and off the vessels closer to the shore where the sea is generally calmer.

This application is key for allowing changes such as these and therefore ABP's ability to operate Port Talbot harbour as safely as possible.

Improved safe access to the harbour will also help ensure the port's continued viability, both now and in the future. This will help secure the operation of the harbour for the long-term and the related businesses, and jobs that depend on it, particularly in light of the exciting future potential for investment and growth opened up through the granting of Freeport status to Port Talbot and planned offshore green energy in the Celtic Sea.

The application does not include any construction activity. This means there will not be any visual or noise impact to local residents. We do not anticipate any environmental impacts as a result of the changes to the SHA's jurisdiction and there will be no change in ABP's requirements to comply with marine licensing and environmental legislation.

### Frequently asked questions

**Why are you applying for this application?**

This application helps ABP to operate the port more safely and efficiently. This is in line with our statutory obligations as a Statutory Harbour Authority (SHA) and improves safety for those who use our port. SHA's are statutory bodies responsible for the management and running of a harbour.

Safety is at the heart of our values. We are confident that our existing operations are meeting all safety and regulatory requirements. The changes to the area where we have more navigational control will ensure that we are able to operate the port as safely and efficiently as practicable and, most importantly, keep people working at the port and on the vessels using the port, safer.

**How does expanding the area of Swansea Bay that you're responsible for make things safer?**

To give an example, maritime pilots, who guide vessels on their final miles to and from the port, currently have to get on and off at the deep water anchorage (9 miles south of Mumbles head). The sea conditions here are generally twice as bad as they are closer to the shore where the sea is usually calmer. Extending the area where we have more navigational control gives more opportunities for pilots to get on and off vessels in this safer environment.

**Why now?**

The changes we are seeking to make are in response to opportunities to further improve the safety of our marine operations. These were identified in the latest review we undertook of these operations in 2022. It is best practice (under something called the 'Port and Marine Safety Code') to keep reviewing procedures and identify opportunities for improvement.

**Are the changes you are asking for linked to any of your plans, like the Freeport, to develop Port Talbot as a business location?**

The changes we are seeking through the Harbour Revision Order (HRO) are driven by and focused on the desire to make continuous safety improvements. Recent announcements, like the granting of Freeport status to Port Talbot, offer an exciting potential future for Port Talbot as a location for new investment, the growth of good jobs and greater local prosperity. The ability to safely manage marine traffic in the Port Talbot area will be even more important in a potentially more vibrant and dynamic future for the port.

**When will this take place?**

We will now carry out a six-week period of consultation with our neighbours and stakeholders about the application. After this consultation and following consideration of the responses, our application will be submitted to the Welsh Government for their consideration. Once the application is submitted to the Welsh Government, they will carry out their own consultation so there will be another opportunity to provide feedback. We will also have a dedicated phoneline, website and email address where you can get in touch to ask questions or provide feedback.

**Will there be any disturbances to me as a local resident?**

This HRO, if granted, will not involve any physical changes or construction activity to our port. Therefore, the local community should not expect any disturbances or visual impact as part of this application.

**How does this make Port Talbot safer?**

The changes to the Statutory Harbour Authority (SHA) area will make our port safer in a number of ways. The changes will expand the area of the harbour under our control, giving us more options to meet vessels in safer sea conditions and help pilot them into the port, taking account weather conditions.

**Will the changes in your Statutory Harbour Authority jurisdiction result in any environmental impacts from day-to-day operations?**

We do not anticipate any environmental impacts as a result of these changes. The application is related to the administrative boundary of the Statutory Harbour Authority and does not include construction works. The Marine and Coastal Access Act 2009 governs activities within the marine environment including marine licensing – we're used to working with stakeholders and regulators to meet these requirements and will continue to do so.

**What are the commercial benefits for this application?**

More efficient access to the harbour will ensure the port's continued commercial viability, both now and in the future. This will help secure the long-term future of the harbour, related businesses and jobs. Recent announcements, like the granting of Freeport status, offer an exciting potential future for Port Talbot as a location for new investment, the growth of good jobs and greater local prosperity. The ability to safely manage marine traffic in the Port Talbot area in potentially a more vibrant and dynamic future will be even more important.

**ATODIAD B**

Rhestr o’r Adborth Ymgynghori ac Ymateb yr Ymgeisydd

Mae **Tabl 2** isod yn nodi: y rhanddeiliad; thema'r ymateb; y sylw a godwyd; ac ymateb yr Ymgeisydd.

***Tabl 2: Adborth i'r Ymgynghoriad ac Ymateb yr Ymgeisydd***

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Porthladd Bryste | Cydnabyddiaeth | Roedd Porthladd Bryste yn cydnabod y cais arfaethedig. | Nodir yr ymateb hwn gan yr Ymgeisydd. | N |
| | | | | | |
| 2 | Cymdeithas Porthladdoedd Prydain | Cydnabod buddiant | Rydym wedi adolygu'r cais ac rydym yn fodlon ei gefnogi. Mae'r estyniad yn sylweddol ac felly gelir disgwyl rhywfaint o gwestiynau ac adborth gan randdeiliaid eraill. Fodd bynnag, mae'r cyfan yn ymddangos yn synhwyrol ac o ran porthladdoedd eraill, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw weithredwyr eraill yn gwrthwynebu.<br>Edrychwn ymlaen at ddilyn hyn â diddordeb. | Mae'r Ymgeisydd yn croesawu cefnogaeth Cymdeithas Porthladdoedd Prydain i'r cais hwn. | N |
| | | | | | |
| 3a | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | Manylion ychwanegol am yr achos angen | Rydym yn deall bod yr ardal newydd yn ymestyn i'r de-orllewin i ddarparu ar gyfer codi peilotiaid a'r angorfa dŵr dwfn. O ran diddordeb, a oes unrhyw asesiadau risg ategol (mordwyo) sy'n ymdrin â'r angen neu'r cyfiawnhad am hyd a lled y ddarpariaeth? Nid oes gennym unrhyw beth ar gofnod, a byddem yn tybio bod yr ardal newydd hon i fod i ddarparu ar gyfer y llongau wrth iddynt ddynesu hefyd? | Gall yr Ymgeisydd gadarnhau bod asesiadau risg wedi'u sefydlu, a'i fod yn flaenorol wedi cynnal asesiad prosesau yn 2021 a 2022 a oedd yn cefnogi'n uniongyrchol yr anghenion a'r cyfiawnhad am ardal newydd yr AHS.<br>Gall yr Ymgeisydd hefyd gadarnhau bod yr ardal newydd yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu ar gyfer llongau a rheoli diogelwch morol llongau sy'n mynd i mewn i'r angorfa dŵr dwfn a'r llwybrau dynesu at derfynau presennol Port Talbot. | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | I gefnogi'r ymateb hwn ymhellach, mae'r Ymgeisydd wedi paratoi adroddiad cryno sy'n ymdrin â'r asesiadau risg, y System Rheoli Diogelwch Morol, hyd a lled daearyddol presennol ac arfaethedig cyfrifoldebau'r AHS a'r Awdurdod Harbwr Cymwys (AHC) a'r manteision diogelwch a fwriedir o'r estyniad arfaethedig. Mae'r adroddiad hwn – *Navigation Risk Assessment* – wedi cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais. | |
| 3b | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | Manylion ychwanegol o ran hyd a lled terfynau'r AHC | Mae'r paragraff canlynol yn datgan: Yn ychwanegol i'w statws fel awdurdod harbwr statudol, mae CPP yn awdurdod harbwr cymwys yng nghyswllt Harbwr Port Talbot o dan Ddeddf Peilotiaeth 1987, ac wedi gwneud cyfarwyddyd peilotiaeth gorfodol o ran yr ardal y mae'n awdurdod felly arni. Nid yw'r ardal y mae gan CPP bwerau drosti fel awdurdod harbwr cymwys yn ymestyn y tu hwnt i derfynau presennol yr harbwr.<br><br>Byddai'n ddefnyddiol deall hyd a lled eich terfynau presennol fel Awdurdod Harbwr Cymwys (CHA), sydd mewn grym yn hytrach nag yn cael eu harfer, mewn perthynas â'ch terfynau AHS newydd a chyfredol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer yr ardal codi peilotiaid. | Er mwyn cadarnhau, ar hyn o bryd mae'r terfynau AHC yr un fath â'r terfynau AHS presennol – yn agos at Bort Talbot. Bydd y GAH Drafft, os penderfynir o'i blaid, yn ymestyn terfynau'r AHC hyd at derfynau estynedig arfaethedig yr AHS. | N |
| 3c | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | System Rheoli Diogelwch Morol | Nodwn fod y terfynau newydd yn cyffwrdd â therfynau AHS Abertawe. Yn unol ag adran 2.12 o'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd, byddem yn disgwyl i Bort | Mae'r System Rheoli Diogelwch Morol (SRhDM) sydd ar waith ym mhorthladdoedd CPP yng Nghymru yn cynnwys elfen grŵp CPP sy'n gyson ar draws pob un o 21 | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Talbot ddiweddaru ei System Rheoli Diogelwch Morol i ymgorffori ac ystyried rhyngwyneb y gweithdrefnau rhwng y ddau AHS cyffiniol. | porthladd CPP ac elfen leol sy'n adlewyrchu amgylchiadau'r porthladd CPP unigol y mae'n ymwneud ag ef.<br>O ran pum porthladd CPP yng Nghymru (gan gynnwys Port Talbot ac Abertawe), mae elfennau lleol y SRhDM yn gyson ar draws y pum porthladd yng Nghymru gyda llawer o elfennau fel Gwasanaethau Porthladd Lleol, Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Gollyngiadau Olew, ymatebydd Haen 2 pan geir gollyngiad olew, canllawiau Halio a Pheilota yn cwmpasu pob un o'r pum porthladd mewn modd integredig.<br><br>Mae'r Ymgeisydd yn credu y bydd yr estyniad arfaethedig i'r AHS yn gwella diogelwch morol drwy ymestyn y SRhDM sydd eisoes wedi'i sefydlu'n gyson ar draws yr ardal estynedig arfaethedig. Fodd bynnag, bwriad CPP yw adolygu'r gweithdrefnau SRhDM ar gyfer Port Talbot ac Abertawe i ystyried a oes angen unrhyw ddiwygiadau i adlewyrchu natur gyffiniol yr estyniad arfaethedig. | |
| 3d | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | GAH gwreiddiol | Roeddem hefyd yn meddwl tybed a oedd y GAH gwreiddiol, sy'n cael ei ymestyn i gynnwys yr ardal newydd hon, yn dal i gael ei ystyried yn gyfredol ac yn addas i'r diben neu a oedd cynlluniau i'w adolygu neu'i foderneiddio. Nid wyf wedi gweld y GAH gwreiddiol. Mae'n bosib iawn y gallai gael ei gynnwys i'w adolygu yn ystod cam ymgynghori ffurfiol y GAH drwy dîm | I gadarnhau, nid oedd unrhyw GAH blaenorol ond roedd deddfwriaeth leol newydd (Deddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1964), a oedd yn golygu bod modd adeiladu'r harbwr llanw ym Mhort Talbot. Ystyriwyd yr angen i foderneiddio deddfwriaeth leol sy'n rhoi ei phwerau i CPP yn yr harbwr presennol ond daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn angenrheidiol. | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gorchmynion Harbwr y Sefydliad Rheoli Morol. | | |
| | | | | | |
| 4a | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol | Eglurhad | Fel y gwelaf mae a wnelo'r cynigion yn bennaf â diogelwch a chaniatáu i beilotiaid morol, sy'n tywys llongau ar eu milltiroedd olaf i'r porthladd ac oddi yno, fynd ar longau ac oddi arnynt yn nes at y lan lle mae'r môr yn dawelach ar y cyfan. Rwyf hefyd yn cydnabod bod elfen o edrych i'r dyfodol, gyda'r estyniad arfaethedig yn galluogi defnydd diogel o ardal y porthladd i unrhyw storfa wlyb bosib ar gyfer gwynt arnofiol ar y môr (FLOW). Mae diffyg unrhyw waith adeiladu arfaethedig yn golygu, o ran effaith ar wely'r môr, na allaf ragweld unrhyw broblemau. | Mae'r angen i ymestyn yr AHS yn cael ei yrru gan ddiogelwch mordwyo a safleoedd codi a gollwng peilotiaid – ac mae'r gofyniad hwn yn bwysig ar sail y gweithgarwch llongau presennol. Fodd bynnag, mae'r angen i reoli, llywodraethu a rheoleiddio diogelwch mordwyo yn dod yn bwysicach fyth os bydd y diwydiant FLOW yn datblygu ymhellach yn y Môr Celtaidd. | N |
| 4b | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol | Eglurhad | Mae f'unig gwestiynau go iawn yn ymwneud ag unrhyw bosibilrwydd o fwy o garthu i hwyluso llongau mwy/anarferol a allai fod yn gysylltiedig â FLOW. Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi bod hynny y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn ac, o ystyried bod FLOW ar gam mor gynnar yn ei ddatblygiad ar hyn o bryd, efallai ei fod yn gwestiwn nad oes ateb iddo ar hyn o bryd. | O ran carthu, nid yw'r cais hwn yn newid y gofynion carthu ym Mhort Talbot yn uniongyrchol (gan ei fod yn GAH nad yw'n un "gwaith") a bydd y drefn trwyddedu morol, sy'n rheoli gweithgareddau y mae CPP eisoes yn gallu eu cyflawni y tu hwnt i'r marc penllanw cymedrig, yn parhau i fod yn berthnasol i'r estyniad arfaethedig i AHS Port Talbot (fel y mae'n berthnasol o fewn terfynau presennol yr harbwr). | N |
| 4c | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol | Eglurhad | Gan fod mwy o draffig nag erioed o'r blaen yn gallu golygu mwy o amharu ar famaliaid morol, byddwn yn awgrymu siarad â'r tîm Cadwraeth Morfilod a dolffiniaid os bydd | Ar hyn o bryd mae CPP yn carthu o fewn terfyn AHS Port Talbot a hefyd o fewn y llwybrau dynesu at y Porthladd, a ddangosir ar y cynllun sydd ynghlwm mewn melyn a | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | angen rhagor o wybodaeth arnoch am hynny. | phinc golau. Mae trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn gysylltiedig â hyn a chymerir samplau yn unol â gofynion OSPAR. | |
| | | | | | |
| 5 | Mike Hedges AS | Cefnogi | Wedi ymateb gan gefnogi'r cais arfaethedig. | Mae'r Ymgeisydd yn croesawu cefnogaeth yr AS lleol i'r cais hwn. | N |
| | | | | | |
| 6a | Cyfoeth Naturiol Cymru | Eglurhad | Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am eglurhad ar nifer o bwyntiau yn ystod yr ymgynghoriad. Ymatebodd yr Ymgeisydd yn ysgrifenedig i'r rhain a chynhaliwyd cyfarfod ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben i drafod unrhyw ymholiadau pellach. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb cynghori fel a ganlyn: | Nodir hyn gan yr Ymgeisydd ac mae'n gwerthfawrogi'r ymrwymiad i ddeialog sydd wedi digwydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori. | N |
| 6b | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cynghori | Rydym yn nodi, o'n trafodaethau, eich bod wedi mynegi nad ydych yn disgwyl i lif neu weithgarwch traffig llongau newid yn yr ardal o ganlyniad uniongyrchol i'r estyniad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd traffig llongau'n newid yn y dyfodol oherwydd y mewnlifiad o weithgarwch o FLOW yn y Môr Celtaidd a throi Port Talbot yn Borthladd Rhydd. Felly, os ydych chi'n disgwyl i lefelau gweithgarwch llongau newid, rydyn ni'n eich cynghori i ymgysylltu â thîm Cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl. | Nodir yr ymateb hwn gan yr Ymgeisydd. | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| 6c | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cynghori | Nodwn y bydd yr awdurdodaeth estynedig hefyd yn caniatáu i CPP garthu yn yr ardal estynedig hon o dan y Gorchymyn Harbwr. Rydych wedi dweud, fodd bynnag, nad ydych yn bwriadu carthu mewn ardaloedd ar wahân i'r ardal sydd eisoes wedi'i diffinio, a byddai hyn hefyd yn dibynnu ar drwydded gwaredu. | Nodir yr ymateb hwn gan yr Ymgeisydd. | N |
| 6d | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cynghori | Rydym yn cynghori y bydd yn ofynnol i chi, fel awdurdod cymwys, o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, gwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i asesu'n llawn unrhyw effeithiau posibl a gâi'r GAH ar safleoedd a nodweddion cyfagos lleol cyn cyflawni unrhyw gynlluniau neu brosiectau (yn cynnwys carthu). Rydym yn eich cynghori i ymgysylltu â thîm Cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch hyn. | Nodir yr ymateb hwn gan yr Ymgeisydd. | N |
| | | | | | |
| 7 | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Dim gwrthwynebiad | Wedi ymateb i ddweud nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r cais arfaethedig. | Nodir yr ymateb hwn gan yr Ymgeisydd. | N |
| | | | | | |
| 8a | Awdurdod Porthladd Castell-nedd | Ymrwymiad i ymgysylltu | Mae Awdurdod Porthladd Castell-nedd yn nodi cynnwys y Gorchymyn Adolygu Harbwr (GAH) drafft. Fel y nodwyd pan gyfarfu swyddogion y ddau awdurdod, mae gan Awdurdod Porthladd Castell-nedd nifer o wrthwynebiadau posibl i gynnwys y GAH drafft. Rwy'n cadarnhau, fodd bynnag, y | Nodir hyn gan yr Ymgeisydd ac mae'n gwerthfawrogi'r ymrwymiad i ddeialog sydd wedi digwydd gydag Awdurdod Porthladd Castell-nedd fel rhan o'r broses ymgynghori. | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bydd y gwrthwynebiadau hynny'n cael eu dal yn ôl ar yr amod bod y materion canlynol yn cael eu cytuno a/neu eu derbyn gyda newidiadau priodol yn cael eu gwneud i'r GAH i'w cymryd i ystyriaeth: | | |
| 8b | Awdurdod Porthladd Castell-nedd | Newid erthygl yn y GAH | 1. Byddwch yn deall bod yn rhaid i Awdurdod Porthladd Castell-nedd, o fewn terfynau ei borthladd ei hun, sicrhau angorfa ddiogel ar gyfer llongau y mae arnynt ei hangen. Ar ben hynny, mae hefyd yn bwysig fod Peilot Awdurdod Porthladd Castell-nedd yn gallu byrddio a mynd longau o fewn terfynau'r porthladd. Ystyriwyd terfynau y ddau borthladd yn y cyfarfod uchod ac rwyf yn deall eu bod yn cytuno. Bydd hyn yn golygu newid terfynau'r ddau borthladd. Felly, bydd angen gwneud y newidiadau hynny i'ch GAH drafft a bydd angen GAH newydd ar gyfer Awdurdod Porthladd Castell-nedd. Dylid cyflwyno'r rhain yr un pryd gyda'r gost o'u paratoi yn cael ei hysgwyddo gan CPP. | Nid yw'r Ymgeisydd wedi ymestyn terfynau'r gorchymyn fel yr awgrymwyd gan Awdurdod Porthladd Castell-nedd. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y mater hwn a godwyd gan Awdurdod Porthladd Castell-nedd a bydd yn ystyried peidio â gwrthwynebu GAH yn y dyfodol gan Awdurdod Porthladd Castell-nedd er mwyn ymestyn ei derfynau. | N |
| 8c | Awdurdod Porthladd Castell-nedd | Effaith ar longau | 2. Bydd angen newid Erthygl 5.17 yn GAH drafft CPP fel ei bod yn glir na fydd unrhyw dollau (nwyddau neu deithiwr) na ffioedd llongau â pheilot yn cael eu codi mewn perthynas â llongau sydd ar eu ffordd i Gastell-nedd ond sy'n angori neu'n trosglwyddo o fewn terfyn porthladd newydd CPP. | Mae'r Ymgeisydd wedi diweddaru geiriad y gorchymyn drafft i gynnwys y geiriad canlynol, y cytunwyd arno gydag Awdurdod Porthladd Castell-nedd:<br>Ni chaniateir codi ffioedd peilotiaeth o dan adran 10 o Ddeddf Peilotiaeth 1987 ar unrhyw long sy'n mynd drwy neu sy'n angori yn yr ardal ychwanegol sy'n teithio i neu o ardal awdurdod harbwr cymwys arall ac sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd peilot gorfodol a wneir gan yr awdurdod hwnnw. | Oes |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn yr erthygl hon ystyr "awdurdod harbwr cymwys" yw awdurdod harbwr cymwys at ddibenion Deddf Peilotiaeth 1987 ac ystyr "cyfarwyddyd peilot gorfodol" yw cyfarwyddyd a wneir o dan adran 7 (cyfarwyddiadau peilotiaeth) o'r Ddeddf honno. | |
| 8d | Awdurdod Porthladd Castell-nedd | Effaith ar longau | 3. Bydd rheolaeth dros longau sydd ar eu ffordd i ardal Awdurdod Porthladd Castell-nedd yn aros gydag Awdurdod Porthladd Castell-nedd er y gallent fod o fewn terfynau porthladd CPP neu'n pasio drwodd. Ar ben hynny, ni fydd CPP yn gwneud dim o fewn terfyn ei borthladd sy'n llesteirio neu'n effeithio'n andwyol ar siwrnai ddiogel llongau i mewn i derfynau Awdurdod Porthladd Castell-nedd ac allan. | Mae'r Ymgeisydd yn ceisio mynd i'r afael â'r pwynt hwn drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng CPP ac Awdurdod Porthladd Castell-nedd, gan nodi'r egwyddorion, yn enwedig nodweddion diogelwch, sy'n llywodraethu'r ffordd y caiff y rhyngwyneb rhwng y ddau borthladd ei reoli.<br><br>Adeg cyflwyno, mae'r Ymgeisydd yn parhau i drafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft gydag Awdurdod Porthladd Castell-nedd. | N |
| 8e | Awdurdod Porthladd Castell-nedd | Cyfrifoldeb am gostau | 4. Ni fydd CPP yn gwneud dim sy'n amharu ar fynediad llongau i derfyn porthladd Awdurdod Porthladd Castell-nedd fel na fydd symudiadau llongau i mewn neu allan o Borthladd Castell-nedd yn wynebu oedi oherwydd unrhyw weithred gan CPP.<br>Bydd CPP yn indemnio Awdurdod Porthladd Castell-nedd yn erbyn unrhyw gostau sy'n codi o ganlyniad i oedi neu lesteirio llongau wrth iddynt basio drwy derfyn newydd CPP i derfynau Awdurdod Porthladd Castell-nedd. | Gweler yr ymateb i bwynt 8d uchod. | N |
| 8f | Awdurdod Porthladd Castell-nedd | Cyfrifoldeb am gostau | 5. Bydd CPP yn indemnio Awdurdod Porthladd Castell-nedd rhag unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir gan Awdurdod | Gweler yr ymateb i bwynt 8d uchod. | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Porthladd Castell-nedd o ganlyniad i longau sy'n mynd i Borthladd Castell-nedd neu'n gadael yn wynebu oedi, yn cael eu llesteirio neu eu rhoi o dan anfantais fel arall. | | |
| 8g | Awdurdod Porthladd Castell-nedd | Cyfrifoldeb am gostau | 6. Bydd yr indemniad yn 5 uchod yn ymestyn i'r gost i Awdurdod Porthladd Castell-nedd o gyflogi arbenigwyr annibynnol i asesu ac ymchwilio i effaith GAH newydd CPP ar Awdurdod Porthladd Castell-nedd. Mae'r indemniad hwnnw hefyd yn cynnwys costau cyfreithiol a wynebir drwy gydol y prosesau a ragwelir uchod. | Cyfarfu'r Ymgeisydd ag Awdurdod Porthladd Castell-nedd a chytunodd, ar sail newidiadau eraill a wnaed (uchod), nad oedd angen hyn mwyach. | N |
| | | | | | |
| 9a | Ystâd y Goron | Eglurder o ran yr angen i arbed y Goron | Yn y cyfarfod, gofynnwyd am eglurder p'un a oedd angen cymal arbed pwrpasol ar gyfer y Goron i'w gynnwys yn y GAH drafft. Roedd hyn er mwyn diogelu hawliau a buddiannau'r Goron. | Nid yw'r Ymgeisydd o'r farn bod angen cymal arbed penodol ar gyfer y Goron yn y GAH drafft. Ceir esboniad o'n rhesymeg isod.<br>Mae Deddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1964 ("Deddf 1964"), a oedd yn awdurdodi'r harbwr llanw, a'r holl ddeddfwriaeth bresennol arall ym Mhort Talbot, yn ymgorffori Deddf Cymalau Harbyrau, Dociau a Phierau 1847[1] ("Deddf 1847"), gan gynnwys arbediad i'r Goron yn adran 99 yn y ffurf ganlynol:<br><br>*Nothing in this or the special Act to affect the rights of the crown;*<br>*99.Nothing in this or the special Act, or any Act incorporated therewith contained shall extend to alienate, defeat, vary, lessen, abrogate, or prejudice any estate, right, title, interest, prerogative, royalty, jurisdiction, or authority, of or appertaining to the Queen's most* | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *excellent Majesty, nor to abridge, vary, or abrogate any of the powers or authorities by law vested in the Admiralty, or in the Commissioners of Her Majesty's [F1 Customs and Excise], or in the [F2 Crown Estate Commissioners], in relation to the possessions and land revenues of her Majesty in right of her crown, or otherwise howsoever.*<br><br>Mae erthygl 4 ein GAH drafft yn darparu bod Deddf 1847 yn cael effaith o fewn yr ardal ychwanegol, fel y'i hymgorfforwyd yn Neddf 1964. Mae hynny'n golygu bod darpariaethau Deddf 1847 (a ymgorfforwyd gan adran 4 o Ddeddf 1964 ac sy'n cynnwys adran 99) yn cael effaith o fewn yr ardal estynedig. Felly, bydd yr arbediad yn berthnasol o ran arfer unrhyw bwerau a gymhwysir gan y Gorchymyn i'r ardal estynedig.<br>1 Deddf Cymalau Harbyrau, Dociau a Phierau 1847, Adran 99 - https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Vict/10-11/27/crossheading/saving-of-rights | |
| 9a | Ystâd y Goron | Eglurder ar y sefyllfa o ran cloddio agregau morol | Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, gofynnwyd am eglurder ynghylch sut gallai'r AHS estynedig effeithio ar drwyddedau echdynnu agregau morol. | Rydym o'r farn, gan fod yr arbediad i'r Goron a nodir uchod yn gynhwysfawr iawn, y byddai'n diogelu unrhyw fuddiant y mae'r Goron yn ei fwynhau dros fwynau yn yr ardal estynedig. Felly, ni fyddai unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag echdynnu agregau morol. | N |
| | | | | | |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Penderfyniad i beidio ag adolygu dogfennau | Mae eich gohebiaeth wedi cael ei hanfon ymlaen ataf gan mai fy nhîm i sy'n gyfrifol am reoleiddio busnesau yng Nghastell-nedd a Phort Talbot. Diolch am gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eich ymgynghoriad. Fodd bynnag, ni fyddwn yn adolygu'r dogfennau a gyflwynwyd nac yn gwneud sylwadau ar y cais. Roeddwn am roi gwybod i chi fel na fyddech yn meddwl tybed a fyddech yn clywed gennym ai peidio. | Nodir yr ymateb hwn gan yr Ymgeisydd. | N |
| | | | | | |
| 11a | Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA) | Problem gyda'r broses ymgynghori | Mae'r gorchymyn arfaethedig yn debygol o gael effaith ar glybiau cychod hamdden lleol ond nid yw maint yr effaith honno'n glir ar hyn o bryd ac nid yw'r cyfnod ymgynghori byr wedi rhoi digon o gyfle i'r RYA a'r RYAW ymgynghori â'r clybiau yr effeithir arnynt (sy'n cael eu rheoli'n bennaf gan wirfoddolwyr). | Mae'r Ymgeisydd yn credu bod ymgynghoriad cyn cyflwyno chwe wythnos ar y GAH drafft yn rhoi digon o amser i randdeiliaid edrych ar y dogfennau a darparu adborth.<br><br>Cyfarfu'r Ymgeisydd â'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol ddydd Llun 26 Mehefin 2023 i drafod eu hymateb. Gwnaed cais yn ystod y cyfarfod am amser ychwanegol i'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol gyfarfod ag aelodau a chytuno ar ymateb. Yn dilyn hynny, cytunodd yr Ymgeisydd i ddarparu cyfnod ychwanegol o bythefnos – rhwng dydd Llun 26 Mehefin a dydd Llun 10 Gorffennaf – ar gyfer y cyfarfodydd hyn. | N |
| 11a | Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol | Problem gyda'r broses ymgynghori | Ar 11 Gorffennaf 2023, cafwyd diweddariad pellach gan yr RYA. Roeddent yn cadarnhau nad oeddent wedi cael unrhyw sylwadau ar y cynigion gan gynrychiolwyr rhanbarthol a'u bod wedi cael dau sylw ar y canllawiau | Nodir hyn gan yr Ymgeisydd ac mae'n gwerthfawrogi'r ymrwymiad i ddeialog sydd wedi digwydd gyda'r RYA fel rhan o'r broses ymgynghori. | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i'r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | diogelwch mordwyo cyffredinol (a ddarparwyd fel rhan o'r cyfarfod ar 26 Mehefin), ac mae hyn oll yn ymddangos yn gymesur ac yn bragmatig. O ganlyniad, gwnaethant gadarnhau eu bod yn fodlon â'r GAH fel y mae ar hyn o bryd ond gofynasant am iddynt gael gwybod os oes newidiadau pellach yn cael eu cynnig yn y dyfodol. | | |
| | | | | | |
| 12a | Trinity House | Problem gyda bwlch rhwng tair ardal AHS | Fel y cynghorwyd gan Reolwr Mordwyo Trinity House yn ei e-bost dyddiedig 3 Mai 2023, byddai estyniad arfaethedig AHS Port Talbot (fel y dangosir yn Ffigur 1, a gyhoeddwyd gyda'r deunyddiau ymgynghori), yn arwain at greu ardal fach (tua milltir forol sgwâr o ran maint) o ddyfroedd mordwyol cyffredinol rhwng terfynau arfaethedig Awdurdod Harbwr Statudol ("AHS") Port Talbot , terfynau AHS Abertawe a therfynau AHS Porthladd Castell-nedd. Byddai'r ardal hon, i bob pwrpas, yn cael ei chloi rhwng tair ardal AHS gwahanol, sydd â'r potensial i wneud y gwaith parhaus o reoli'r ardal honno gan Trinity House yn anymarferol.<br><br>Mae Trinity House yn croesawu awgrym CPP i addasu'r cyfesurynnau yn y GAH drafft i ddilyn terfynau AHS Porthladd Castell-nedd ac yna uno â therfynau presennol AHS Port Talbot i osgoi gadael bwlch rhwng y tair ardal AHS gwahanol. Yn ogystal ag addasu'r cyfesurynnau a nodwyd yn Atodlen 1 i'r GAH | Mae'r Ymgeisydd wedi addasu'r cyfesurynnau yn y GAH drafft i ddileu'r bwlch rhwng y tair ardal GAH fel yr awgrymwyd yn yr ymateb. | Oes |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i’r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | drafft, rydym yn rhagweld y bydd cynllun yr “Ardal a Ychwanegir” y cyfeirir ati yn Atodlen 2 i’r GAH drafft yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny. | | |
| 12b | Trinity House | Ymgysylltu ar ddarparu cymhorthion mordwyo (y tu hwnt i gwmpas GAH) | Mae Rheolwr Mordwyo Trinity House hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith fod dau fwi (*Ledge* a *Grounds*) wedi’u lleoli ar hyn o bryd o fewn terfynau arfaethedig AHS Port Talbot. Mae’r bwiau hyn yn cael eu gweithredu a’u cynnal a’u cadw gan Trinity House ar hyn o bryd. Er bod Trinity House yn deall nad yw trefniadau yn y dyfodol i weithredu a chynnal a chadw’r cymhorthion mordwyo hyn yn faterion i’w datrys o fewn darpariaethau’r GAH drafft, byddai Trinity House yn croesawu trafodaethau parhaus gyda CPP ynghylch darparu cymhorthion mordwyo o fewn terfynau arfaethedig newydd AHS Port Talbot. | Yn dilyn trafodaethau gyda Rheolwr Mordwyo Trinity House, mae’r Ymgeisydd wedi cynnig cynlluniau wrth gefn synhwyrol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw’r bwiau y cyfeirir atynt yn y dyfodol. | N |
| 12c | Trinity House | Cadarnhau effaith cymal | Rydym yn nodi ei fod yn dweud, ym mharagraff 5.7 y datganiad drafft i gefnogi’r cais a gyhoeddwyd gyda’r deunyddiau ymgynghori, y bydd “yr estyniad arfaethedig at derfynau harbwr Port Talbot yn delio â materion diogelwch penodol o ran angori a mordwyo gan beilotiaid, yn ogystal ag ymestyn pwerau eraill megis symud llongddrylliadau a goleuo a marcio mewn cysylltiad â mordwyo diogel” (ein pwyslais ni wedi’i ychwanegu).<br>Byddem yn ddiolchgar am eich cadarnhad mai effaith erthygl 4(1) o’r GAH drafft yw y bydd darpariaethau canlynol Deddf Cymalau | Gall yr Ymgeisydd gadarnhau y bydd holl ddarpariaethau Deddf 1847 y mae’r ymateb yn cyfeirio ati, gan gynnwys cadw hawliau Trinity House, yn berthnasol yn yr ardal ychwanegol fel y maent yn berthnasol o fewn y terfynau presennol. | N |

| Rhif | Rhanddeiliad | Thema | Sylw a Godwyd | Ymateb yr Ymgeisydd | Newid i’r cais? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Harbyrau, Dociau a Phierau 1847 yn berthnasol i’r “ardal ychwanegol” fel y maent yn berthnasol i derfynau presennol AHS Port Talbot:<br><br>• adran 28 (esemptio llongau yng ngwasanaeth ei Mawrhydi, &c. rhag trethi);<br>• adran 77 (pŵer i godi goleudai a gosod bwiau, gyda chydsyniad Trinity House);<br>• adran 78 (goleuadau, goleudyrau, neu farciau môr na chaniateir eu harddangos na'u newid heb ganiatâd Trinity House); ac<br>• adran 102 (nac ychwaith hawliau Trinity House, &c). | | |
| 12d | Trinity House | Pryder technegol o ran y drafftio | Mae paragraffau 5.16 a 5.17 y datganiad i gefnogi’r cais yn cyfeirio at erthyglau 14(2) a 14(3) o’r GAH drafft. Rydym yn tybio y dylai’r rhain gyfeirio at erthyglau 4(2) a 4(3) o’r HRO drafft? | Mae’r gwelliant hwn wedi’i wneud. | Oes |
| 12e | Trinity House | Gwall teipio | Ceir gwall teipio bychan yn ail linell ail baragraff y Nodyn Esboniadol i’r GAH yn Saesneg, rhwng y geiriau “application of” a “legislation” | Mae’r gwelliant hwn wedi’i wneud. | Oes |


## Plan Terfynau Harbwr Port Talbot

| Pwynt | Lledred | Hydred |
|---|---|---|
| 1 | 51° 35' 03.15893"Gog | 003° 49' 58.92743"Gor |
| 2 | 51° 35' 23.28499"Gog | 003° 53' 52.82491"Gor |
| 3 | 51° 34' 48.72388"Gog | 003° 54' 16.40161"Gor |
| 4 | 51° 34' 09.25610"Gog | 003° 56' 54.67783"Gor |
| 5 | 51° 32' 40.80632"Gog | 003° 58' 52.80959"Gor |
| 6 | 51° 32' 37.04455"Gog | 004° 05' 25.93474"Gor |
| 7 | 51° 24' 59.63288"Gog | 004° 09' 42.42239"Gor |
| 8 | 51° 24' 59.70080"Gog | 003° 58' 01.78030"Gor |
| 9 | 51° 28' 33.70239"Gog | 003° 55' 40.05564"Gor |
| 10 | 51° 30' 05.51332"Gog | 003° 49' 34.14032"Gor |
| 11 | 51° 32' 13.91218"Gog | 003° 51' 35.79793"Gor |
| 12 | 51° 32' 50.42414"Gog | 003° 50' 01.11214"Gor |
| 13 | 51° 33' 35.46087"Gog | 003° 50' 45.40336"Gor |
| 14 | 51° 33' 28.55389"Gog | 003° 51' 04.80125"Gor |
| 15 | 51° 34' 01.50460"Gog | 003° 51' 33.55558"Gor |
| 16 | 51 34' 38.48640"4Gog | 003° 49' 55.61939"Gor |


Estyniad Arfaethedig SHA Port Talbot

Terfyn Presennol SHA Port Talbot

ASSOCIATED BRITISH PORTS




© Contains OS data © Crown copyright and database right, 2022.



4°10'0"W
4°0'0"W
3°50'0"W
51°35'0"N
51°30'0"N
51°25'0"N
Abertawe
Port Talbot
Traffig Port Talbot
Traffig Port Talbot
0
2.5
5
10
km
Estyniad arfaethedig SHA Port Talbot
Terfyn presennol SHA Port Talbot
Port Talbot 1990 Ardal Ychwanegol yr Harbwr Feistr a'r Pwerau Carthu
Terfyn SHA Abertawe
Maes gwaredu Bae Abertawe (LU130)
Angorfa Abertawe
The Ledge
© CPP, 2023. © Hawlfraint y Goron a/neu gronfa ddata. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Y Ceidwad Cofnodion Cyhoeddus a Swyddfa Hydrograffig y DU (www.gov.uk/ukho). Ddim i'w ddefnyddio ar gyfer mordwyo. © ABPmer, Cedwir pob hawl, 2023.
Dyddiad
Gan
RhA
Meh 23
CRO
NKD
System Cyfesurynnau
WGS 1984 UTM Parth 30N
Tafluniad
Transverse Mercator
Prosiect rhif 5307
Fig_HRO_Supporting_Figure_A4
ASSOCIATED BRITISH PORTS